

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

**14/12/2017**

**Presennol:** Y Maer Dorothi Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Edith Roberts, Eifion Roberts, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Sharon Evans, Dilys Evans, Alun Price, Carol Rowlands,

- 1. Croesawyd** pawb gan y Maer a soniodd yn fyr am rai o ddigwyddiadau a fynychodd yn ystod y mis, yn cynnwys swper gyda'r Lleng Prydeinig. Dywedodd gymaint yr oedd wedi mwynhau digwyddiadau'r Noson Siopa Hwyr a diolchodd yn arbennig i ddisgyblion o Ysgol y Berwyn a feirniadodd y gystadleuaeth ar gyfer addurno ffenestri siopau. Llongyfarchodd Carpedi Bala am ennill. Maent yn cyfrannu'r wobr i British Heart ac i uned arenau Ysbyty Maelor.
- 2. Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 3. Buddiant:** Ni dderbyniwyd datganiadau buddiant.
- 4. Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 2il, 2017.
- 5. Materion y Clerc:** Tynnwyd sylw at apêl yn erbyn yr amodau a osodwyd ar ddatblygiad Uned 5 Parc Menter Y Bala.

Trafodwyd neges gan PCSO Iwan Roberts at y problemau parcio ym Maes y Bronnydd. Mae'r Cyngor wedi gohebu gyda Chyngor Gwynedd a'r Heddlu yn y gorffennol ar y mater hwn a roeddent yn cytuno i ysgrifennu at Cartrefi Cymunedol Gwynedd i gefnogi iddynt gymryd cyfrifoldeb dros y mater ac i ddod o hyd i ddatrysiad. Yn ystod y drafodaeth mynegwyd pwysigrwydd cynnal yr ardaloedd gwyrdd, a'r angen i roi mesurau mewn lle i warchod y darn o dir gwyrdd yng nghefn Maes y Bronnydd.

Adroddwyd fod Cynghorwyr Llanuwchllyn, Llangywer a'r Bala mewn ymgynghoriad ffôn yn cymeradwyo'r Gŵyl Chwaraeon sydd i ddigwydd ar y 7fed a'r 8fed o Orffennaf 2018.

- 6. Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir. Soniodd fod y gwaith adeiladu yn Ysgol y Berwyn ar amser ac y bydd y theatr yn agor yn y Gwanwyn. Adroddodd fod ardal Penllyn bellach o fewn Cynllun Gwarchod Plant y Llywodraeth, sydd yn sicrhau fod hawl i hyd at 30 awr o ofal plant am ddim i blant o dan 3 oed i rieni sydd mewn gwaith. Diolchwyd yn fawr iawn i Dilwyn Morgan am sicrhau fod biniau sbwriel newydd wedi eu gosod yn y Stryd Fawr.
- 7. Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd mwy o fanylion am y cynllun uwchraddio a bydd y mater yn cael ei ystyried eto yng nghyfarfod Ionawr o'r Cyngor Tref.

**8. Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a chytunwyd i dalu anfonebau'r mis

**9. Gohebiaeth :** **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth am waith newid colofnau golau stryd yn Nhrem y Ffridd.